



Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) Torfaen - 2022-2037

Asesiad Aneddiadau Cynaliadwy - Crynodeb Gweithredol Awst 2023

*This document is available in English
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg*

Mae'r Asesiad, sy'n seiliedig ar gyngor Llywodraeth Cymru ym Mholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11, Chwefror 2021) a'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Rhifyn 3, Mawrth 2020), a methodoleg ddrafft y cytunwyd arni'n rhanbarthol, wedi dadansoddi lleoliad, rôl a swyddogaeth aneddiadau cynaliadwy Torfaen, eu perthynas ag aneddiadau eraill yn y rhanbarth; a nodi hierarchaeth o ran yr aneddiadau. Roedd yr asesiad yn cynnwys cyfuniad o waith arolwg bwrdd gwaith ac ymweliadau safle ac mae wedi nodi'r lleoliadau mwyaf priodol i greu twf yn y Fwrdeistref Sirol yn y dyfodol er mwyn datblygu'n gynaliadwy a chreu lleoedd, lleihau patrymau symud anghynaliadwy a chefnogi gwasanaethau a chyfleusterau lleol. Mae'r Asesiad hwn yn rhan allweddol o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) Torfaen 2018-2033.

Mae pedwar anheddiad wedi bod yn destun asesiad, sy'n adlewyrchu'n gyffredinol y ffiniau trefol a nodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd (2006-2021) ac maent yn cynnwys aneddiadau cynaliadwy penodol Blaenafon, Cwmbrân a Phonthir, ac ardal drefol gyfun Pont-y-pŵl.

Er mwyn asesu rôl a swyddogaeth pob setliad unigol yn effeithiol, cynhaliwyd archwiliad o'r gwasanaethau a'r cyfleusterau presennol ym mhob anheddiad ar yn gynnar yn 2023. Roedd yr archwiliad hwn yn seiliedig ar y tair egwyddor ganlynol (fel y manylir arnynt yn Nhablau 1-3 isod) a maint poblogaeth pob anheddiad: -

- **Egwyddor 1 - Lefel y cludiant cynaliadwy a hygyrchedd o fewn yr aneddiadau ac o'u cwmpas;**
- **Egwyddor 2 - Y cyfleusterau a gwasanaethau lleol sydd ar gael mewn aneddiadau ac o'u cwmpas; a**
- **Egwyddor 3 - Lefel y cyfleoedd cyflogaeth o fewn yr aneddiadau ac o'u hamgylch.**

Tabl 1: Egwyddor 1 - Cludiant Cynaliadwy a Hygyrchedd

Ystyriaeth	Anheddiad			
	Blaenafon	Pont-y-pŵl	Cwmbrân	Ponthir
Darpariaeth Teithio Llesol	Teg	Teg	Teg	Cyfyngedig
Sgôr (uchafs.10)	5	5	5	2
Amllder Gwasanaeth Bws	bob 10 munud	bob 10 munud	bob 10 munud	bob 30 munud
Sgôr (uchafs.10)	10	10	10	5
Gwasanaethau Rheilffordd (lleoliad ac amllder)	Gorsaf Drenau >3 milltir	Gorsaf Drenau yn yr anheddiad 1-2 trên / awr	Gorsaf Drenau yn yr anheddiad 2 trên / awr	Gorsaf Drenau >3 milltir
Sgôr (uchafs.10)	0	8	10	0

Pellter o'r Rhwydwaith Priffyrdd Strategol	Rhwng 3 a 5 milltir	Llai na 3 milltir	Llai na 3 milltir	Llai na 3 milltir
Sgôr (uchafs.5)	2	5	5	5
Cyfanswm Sgôr (uchafs. 35 pwynt)	17	28	30	12
Sgôr Pwysol (40%)	19.4%	32.0%	34.3%	13.7%

Tabl 2: Egwyddor 2 - Cyfleusterau a Gwasanaethau sydd ar gael

Ystyriaeth	Anheddiad			
	Blaenafon	Pont-y-pŵl	Cwmbrân	Ponthir
Presenoldeb Siopau yn yr anheddiad	Canol Trefi - Bach	Canol Trefi - Mawr Canolfannau LI a Ch Siopau Pantri	Canol tref Isranbarthol Canolfannau LI a Ch Siopau Pantri	Dim
Sgôr (uchaf. 27)	10	22	27	0
Anghenion Rheolaidd	3 Siop Nwyddau Cyfleus 3+ Siop nad ydynt yn siopau bwyd 1 Swyddfa Bost 0 Banc 1 Gorsaf Betrol	3+ Siop Nwyddau Cyfleus 3+ Siop nad ydynt yn siopau bwyd 3+ Swyddfa Bost 1 Banc 3+ Gorsaf Betrol	3+ Siop Nwyddau Cyfleus 3+ Siop nad ydynt yn siopau bwyd 3+ Swyddfa Bost 3+ Banc 3+ Gorsaf Betrol	0 Siop Nwyddau Cyfleus 0 Siop nad yw'n siop bwyd 0 Swyddfa Bost 0 Banc 0 Gorsaf Betrol
Sgôr (uchafs 15)	7	13	15	0
Cyfleusterau Cymunedol	3+ Neuadd Gyhoeddus 3+ Man Addoli 1 Llyfrgell (3) 0 Canolfan Hamdden 1 Campfa 1 Sin.a Theatr (3) 3 Man Agored Cyhoeddus 3+ Chwaraeon 3 Chwarae Cymunedol 3+ Clwb Ieuenctid	3+ Neuadd Gyhoeddus 3+ Man Addoli 1 Llyfrgell (3) 1 Canolfan Hamdden. (3) 3+ Campfa 0 Sin./Theatr 3+ Man Agored Cyhoeddus 3+ Chwaraeon 3+ Chwarae Cymunedol 3+ Clwb Ieuenctid	3+ Neuadd Gyhoeddus 3+ Man Addoli 1 Llyfrgell (3) 3 Canolfan Hamdden. (3) 3+ Campfa 2 Sin./Theatr (3) 3+ Man Agored Cyhoeddus 3+ Chwaraeon 3+ Chwarae Cymunedol 3+ Clwb Ieuenctid	1 Neuadd Gyhoeddus 1 Man Addoli 0 Llyfrgell 0 Canolfan Hamdden 0 Campfa 0 Sin./Theatr 2 Man Agored Cyhoeddus 2 Chwaraeon 2 Chwarae Cymunedol 0 Clwb Ieuenctid
Sgôr (uchafs. 30)	23	27	30	8
Cyfleusterau Meddygol	0 Ysbyty 1 Meddygfa MT 2 Fferyllfa 0 Deintydd	1 Ysbyty (3) 3+ Meddygfa MT 3+ Fferyllfa 3+ Deintydd	1 Ysbyty (3) 3+ Meddygfa MT 3+ Fferyllfa 3+ Deintydd	0 Ysbyty 1 Meddygfa MT 1 Fferyllfa 2 Deintydd
Sgôr (uchafs. 12)	3	12	12	4
Cyfleusterau Addysg	3+ Meithrinfa ayyb. 1 Ysg. Gyn. 0 Uwch/Add. Bell. 0 Uwchradd/6 ^{ed} Dosb. / 0 Addysg Bellach	3+ Meithrinfa ayyb. 3+ Ysg. Gyn. 3+ Uwch/Add. Bell. 3+ Uwchradd/6 ^{ed} Dosb / 0 Addysg Bellach	3+ Meithrinfa ayyb. 3+ Ysg. Gyn. 3+ Uwch/Add. Bell. 3+ Uwchradd/6 ^{ed} Dosb / 1 Addysg Bellach	1 Meithrinfa ayyb. 1 Ysg. Gyn. 0 Uwch/Add. Bell. 0 Uwchradd/6 ^{ed} Dosb / 0 Addysg Bellach
Sgôr (uchafs. 9)	4	9	9	2
Caffis, Bariau, Tafarndai, Bwytaï a Chludfwyd	3+ Tŷ Tafarn 3+ Caffi ayyb.	3+ Tŷ Tafarn 3+ Caffi ayyb.	3+ Tŷ Tafarn 3+ Caffi ayyb.	2 Tŷ Tafarn 0 Caffi ayyb.
Sgôr (uchafs. 6)	6	6	6	2

Cysylltedd Band Eang (gwefan - 07/23)	Cyflym iawn: lanlwytho: 70 Mb lawrlwytho: 16 Mb	Cyflym iawn: lanlwytho: 68 Mb lawrlwytho: 18 Mb	Cyflym iawn /Uwch: lanlwytho: 62/600 Mb lawrlwytho: 20/50Mb	Cyflym iawn: lanlwytho: 100 Mb lawrlwytho: 20 Mb
Sgôr (uchafs. 5)	3	3	4	3
Cyfanswm Sgôr (uchafs. 104 pwynt)	56	92	103	19
Sgôr Pwysol (30%)	16.2%	27.3%	29.7%	5.5%

Tabl 3: Egwyddor 3 - Cyfleoedd Cyflogaeth

Ystyriaeth	Anheddiad			
	Blaenafon	Pont-y-pŵl	Cwmbrân	Ponthir
Ardal Safle(oedd) Cyflogaeth Gwarchodedig Defnydd B1-B8 o fewn yn anheddiad	28.3Ha	107.6Ha	189.8Ha	0Ha
Sgôr (uchafs. 20)	8	15	20	0
Ardal Safleoedd Busnes / Diwydiannol Dyranedig / a Ganiateir neu safleoedd Defnydd Cymysg o fewn yr anheddiad	6.0Ha	7.0Ha	51.9Ha	0Ha
Sgôr (uchafs. 20)	10	10	20	0
NEU Pellter o Safle Cyflogaeth Gwarchodedig / Dyranedig os nad o fewn yr anheddiad	Amh	Amh	Amh	Llai na 1 milltir
Sgôr (uchafs. 5)	0	0	0	5
Cyfanswm Sgôr (uchafs. 40 pwynt)	18	25	40	5
Sgôr Pwysol (30%)	13.5%	18.8%	30%	3.8%

Hierarchaeth Aneddiadau - Safle aneddiadau yn seiliedig ar eu Sgoriau Pwysol yng nghyd-destun y Tair Egwyddor a Maint yr Aneddiadau

Gan ddefnyddio canlyniadau'r archwiliad o Dablau 1-3 uchod, mae'r aneddiadau wedi'u rhannu'n 3 haen yn dibynnu yn ôl eu Sgôr Pwysol yng nghyd-destun y 3 egwyddor. Mae'r haenau wedi'u codio â lliw, gyda Haen 1 yn wyrdd wrth iddynt gyflawni'r Sgoriau uchaf; y Sgoriau Haen 2 canol fel ambr; a Haen 3 gyda'r Sgoriau isaf yn goch. Lluniwyd yr haenau trwy rannu pob categori yn gyfartal yn dri. Gan ddefnyddio'r cyfuniad hwn o sgorio a chod lliw, mae Tabl 4a isod yn nodi hierarchaeth gychwynnol yr aneddiadau.

Tabl 4a: Hierarchaeth Gychwynnol yr Aneddiadau yn seiliedig ar eu Sgoriau Pwysol yng nghyd-destun y Tair Egwyddor

Anheddiad	Egwyddor 1: Gwasanaethau Cludiant a Hygyrchedd (40%)		Egwyddor 2: Gwasanaethau Cymunedol a Chyfleusterau (30%)		Egwyddor 3: Cyfleoedd Cyflogaeth (30%)		Cyfanswm	
	Sgôr %	Haen	Sgôr %	Haen	Sgôr %	Haen	Sgôr %	Haen

Cwmbrân	34.3%	Haen 1	29.7%	Haen 1	30%	Haen 1	94.0%	Haen 1
Pont-y-pŵl	32.0%	Haen 1	27.3%	Haen 1	18.8%	Haen 2	78.1%	Haen 1
Blaenafon	19.4%	Haen 2	16.2%	Haen 2	13.5%	Haen 2	49.1%	Haen 2
Ponthir	13.7%	Haen 2	5.5%	Haen 3	3.8%	Haen 3	23.0%	Haen 3

Yn olaf, gan fod Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cymru (Rhif. 3 - 2020) hefyd yn argymhell y dylid ystyried maint anheddiad yn yr asesiad aneddiadau, rydym wedi llunio'r Hierarchaeth Aneddiadau gyffredinol ar gyfer Torfaen, fel a ganlyn: -

Tabl 4b: Hierarchaeth Aneddiadau Torfaen yn Gyffredinol yn seiliedig ar amcangyfrif (Cyfrifiad 2021) o Faint y Boblogaeth

Anheddiad	Asesiad Aneddiadau yn Gyffredinol		
	Poblogaeth (Cyfrifiad 2021)	Sgôr	Haen
Cwmbrân	48,427	10	Haen 1
Pont-y-pŵl	36,361	10	Haen 1
Blaenafon	6,452	6	Haen 2
Ponthir	1,296	0	Haen 3

Felly, nodwyd hierarchaeth aneddiadau Torfaen fel a ganlyn:-

Haen 1: Aneddiadau Sylfaenol: Cwmbrân a Phont-y-pŵl;

Haen 2: Prif Anheddiad: Blaenafon; a

Haen 3: Mân Aneddiad: Ponthir.